



Ein cyf/Our ref: MA-VG-0755-21

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru

19 Chwefror 2021

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ac Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl. Roedd hyn yn angenrheidiol o ystyried yr angen i weithredu'n gyflym ac ar sail pedair gwlad er mwyn cefnogi'r mesurau diogelwch pellach a gyflwynwyd yn yr ymdrech i atal perygl i iechyd y cyhoedd gan bobl sy'n teithio i Gymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.